Rhifyn Mai 9/7/14 14:18 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 35. RHIF 12 MAI 2014 50c

# Gwahoddiad Tywysogaidd

## *Haf diddorol i Gymry'r Angor (2014)*

Gwahoddwn chwi i ymuno â ni yng Nghanolfan Bethel a Eglwys Bethel, Heathfield Road/Auckland Road, ar y ffin â maesdrefi Wavertree ac Allerton, L15 a L18 i dri cyfarfyddiad hwn

## CROESO – CROESO – CROESO

**CYFARFYDDIAD CYNTAF**



**ar Nos Lun, Mai 19, 2014 am 7.30 yn y Ganolfan –**
yr Athro Mari Lloyd-Williams, Prifysgol Lerpwl yn annerch

**AGEING AN THE WELFARE STATE**

Pris mynediad: £2
(Trefnir gan Prifysgol Cymru, Alumni Lerpwl).

**AIL GYFARFYDDIAD**

**GŴYL YR ADEILADWYR**

***(The Festival of the Liverpool Welsh Builders)***

**Sadwrn, 7 Mehefin 2014**

**SESIWN 1:** 10.30 - 11.25 – Cyflwyniad ar Gynllunydd Strydoedd a Chapeli, y Pensaer o Gymro o Lerpwl, Richard Owen (gweler ***Taro Post***) (1831 - 1891) gan Dr. Gareth Carr o Wrecsam (yn Saesneg). Llywydd: Mr. Ted Clement-Evans.

Toriad am baned (11.40 i 1 o'r gloch)

**SESIWN 2:** ***Dau Gwmni o Adeiladwyr*** (Powerpoint)
Teulu Hugh Jones a R. E. Jones a Clement-Evans
a chwmni J. W. Jones, Allerton a'i Feibion
gan yr Athro Dr. D. Ben Rees, F.R.Hist.,
Llywydd: Mrs Nia Antonia, Allerton (wyres J. W. Jones)



Yna yn yr hwyr
**CYNGERDD am 7.30 yn Bethel** - (tocynnau ar werth)
**Parti o Ddyffryn Clwyd.**

**Bore Sul, 8 Mehefin: Oedfa am 10.30 o'r gloch**
(Trefnir gan Gymdeithas Etifeddiaeth Cymry'r Glannau)

**YNA Y TRYDYDD CYFARFYDDIAD**

**Y GYMANFA GANU ym mis Gorffennaf (daw'r dyddiad y rhifyn nesaf) ym Methel pryd y daw Cwmwni Teledu i recordio *Dechrau Canu Dechrau Canmol* S4C.**

**Welsoch chi well darpariaeth, wel felly cefnogwch hyd eithaf eich gallu y cyflenwad anhygoel, gwahanol, gwerthfawr a drefnir gan Bwyllgor Mawl Dosbarth Lerpwl o Eglwys Bresbyteraidd Cymru.**

**YN Y RHIFYN HWN:**

Bellisimo Gyfeillion - Llunio Emynau - Newyddion o Eglwysi Bethania, Bethel, Seion, Cymdeithas Cymry Birkenhead, Manceinion – Dyddiau Cynnar Penmachno – Cofleidio Cymru

## Golygyddol

# *Rhifyn Olaf Cyfrol 35 ym mis Mai –*

## *gan D. Ben Rees*

Anodd credu fod 35 o flynyddoedd wedi mynd heibio ers pan anwyd *Yr Angor* a dyma'r rhifyn olaf sef rhifyn Mis Mai. Dyma fis gwerthfawr fel y dywed y beirdd. Soniodd Evan Jenkins, Ffair Rhos (a gofiaf yn dda yn fy arddegau) am *Gawod Mai* yn ei englyn:

*Diod win y dadeni – o'i dyfod*
*Afiaith sy'n y llwyni.*
*Ymlid ofn a'i mil defni,*
*Ac ail oes sy'n ei glaw hi.*

A bardd arall, un o'r beirdd mwyaf a welodd daear Cymru, sef T. Gwynn Jones yn englynu ar yr un thema

*Glaw ym Mai*
*Cnufau cymylau fel mur – adwyog*
*Rhwng daear ac asur,*
*Dioglyd fôr, nad eglur,*
*Llyfn oedd ef fel llafn o ddur.*

Lluniodd T. Arfon Williams lu o englynion i Fai ond dyma'r un a ddetholais o'i gasgliad gwerthfawr ar *Mai*

*Oesoedd bu bwrw'i phrentisiaeth – er hyn*
*Ar riniog dynoliaeth*
*Colli galwyni o laeth*
*Mae Mai heb ddim amheuaeth.*

Bydd Cyfrol 36 yn cychwyn gyda'r rhifyn nesaf, sef rhifyn mis Mehefin a hoffwn ddiolch i bawb sydd yn cefnogi y papur bro hwn.

Y mae ei cylchrediad yn cynyddu ychydig o hyd er yr holl golledion a ddaw. Gan fod pris stampiau wedi codi bydd yn ofynnol i'r rhai sydd yn derbyn *Yr Angor* trwy'r post anfon y swm o £11 am y flwyddyn nesaf.

## PRIS YR ANGOR

**am y flwyddyn nesaf trwy'r cymdeithasau: 50 ceiniog y rhifyn, trwy'r post £11 am flwyddyn**

# *BELLISIMO GYFEILLION!*

Trysorau cerddorol yr Eidal a Chymru oedd thema cyngerdd ysblennydd a gynhaliwyd yn Eglwys Sant Nicholas yn y Pier Head yn nechrau Mawrth. Amlinellodd y cyflwynydd Graham Connolly hanes y rhan fwyaf o'r darnau. Roedd y ddau unawdydd talentog, Nick Harding a Helen Pickett yng nghwmni John Peace ar y piano, yn ardderchog gyda rhaglen wych o ganeuon clasurol, arias ac alawon gwerin o'r gerddoriaeth y ddwy wlad. Llongyfarchiadau i bawb a diolch am noson wych.



***John, Helen a Nick***

# *CYNGERDD I GOFIO*

Llongyfarchiadau i Undeb Gorawl Cymry Lerpwl am gyngerdd uchelgeisiol a gynhaliwyd yn y Gadeirlan Anglicanaidd nos Wener, 28ain o Fawrth. Roedd yn gyngerdd i gofio am ddechrau Rhyfel Byd Cyntaf 100 mlynedd yn ôl ac am yr holl bobl a gafodd eu lladd yn ystod y gyflafan. Clywsom waith gan Elgar '*For the fallen*' a *Dona Nobis Pacem* gan R. Vaughan Williams. Fe ganwyd caneuon o gyfnod y rhyfel. Er bod elfennau militaraidd yn y cyngerdd roedd yr awyrgylch yn un o gofio y rhai a gollwyd yn hytrach na un o fuddugoliaeth.



***Aelodau'r côr yn gwisgo pabi coch***

*Newyddion o*

# LANNAU MERSI A MANCEINION

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Llwyddodd nifer ohonom fod yn bresennol yn cydnabod gwasanaeth enfawr Howell Harris i'n dechreuadau fel enwad, a llywyddwyd gan Mr. John P. Lyons yn ddeheuig a darllenwyd yr Ysgrythur gan Mrs Elin Bryn Boyd. Roedd sglein ar y cyfan, a daeth y neges drosodd fod Howell Harris (1714-1773) yn ŵr o ddifrif ac yn hynod o ddewr i gyflwyno'r Efengyl led led Cymru a de Lloegr. Ni fu yn Lerpwl. Bu ei arwr, Griffith Jones, Llanddowror yma ar ei ffordd i'r Alban.

Da clywed fod Miss Megan Williams, Mersey Road wedi dod adref o Ysbyty Aintree ac yn raddol gryfhau. Chwith gennym glywed am farwolaeth Mr Eddie Welling, ffrind da i ni fel Eglwys. Yr oedd yn un o'r gwahoddedigion yn ein Cinio Nadolig. Cydymdeimlwn â Mrs Pam McNamara a'r holl deulu yn yr hiraeth gan ddiolch iddynt am ei gofal cariadus ar hyd y blynyddoedd.

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Da ydyw medru dweud ar ddechrau'r Gwanwyn fel hyn, fod cleifion Seion yn gwella a gartref o'r ysbyty, sef Mrs. Gwyneth Thomas a Mr Hywel Jones hefyd. Dymunwn gysuron i Mrs Megan Evans, sydd adref ond heb fwynhau iechyd rhy dda yn ddiweddar. Bu Mrs Catherine Wright, Wrecsam, priod ein cyn weinidog mewn cartref am ychydig ar ôl syrthio ond mae hithau adref erbyn hyn. Yr un yw ein dymuniad i Mr. Clifford Owen (Llanfairfechan), Ellesmere Port gynt. Cafodd Clifford law driniaeth yn Broadgreen, ond mae gartref erbyn hyn a gwerthfawrogodd ymweliad ei ffrindiau ag ef. Byddai Clifford yn arfer dod i bregethu i Seion pan yn byw yn Ellesmere Port flynyddoedd yn ôl. Atgofion melys amdanoch i gyd a'r dyddiau dedwydd a fu.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mrs Sarah Davies, a'r teulu yn eu profedigaeth. Bu farw nai hynaf Sarah, sef John ym Mryste, wedi cystudd caled. Roedd pryder Sarah amdano yn fawr. Cydymdeimlwn â'i briod a'i blant a'i wyrion a'i wyresau (cannwyll llygaid eu taid). Bu'r gwasanaeth angladdol Mercher, 26 Mawrth ym Mryste. Methodd Sarah a mynd oherwydd meithder y daith, ond diolch am yr atgofion ac 'am law fy Ngheidwad y diolchaf i a'i gafael ynof er nas gwelaf hi'. Bendith arnoch fel teulu.

Pnawn Sul, 16 Mawrth cynhaliwyd oedfa arbennig yn Seion i Ddosbarth Lerpwl o dan lywyddiaeth ddoeth Mr. John Lyons, Waterloo. Yr amgylchiad oedd dathlu tri chan mlynedd genedigaeth y diwygiwr Howell Harris. Trefnwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Dr. D. Ben Rees ac ef hefyd a draddododd y bregeth ar y Diwygiwr. Cymerwyd rhan gan swyddogion Bethel, Waterloo a Seion. Mr. Terry O'Neill o Seion oedd yn cyfeilio. Trefnwyd gwledd ar ôl yr oedfa gan chwiorydd Seion. Diolchwyd iddynt gan Dr. John G. Williams, Lerpwl. Manteisiaf innau ar y cyfle i ddiolch am eu haelioni a'u cyd-weithio. Mae'n siwr y bydd adroddiad manylach yn yr *Angor*, o leiaf dylai fod.

Ein dymuniadau da i'r Parch D. Glanville Rees yn ei gartref newydd yn Southport. Gwyddom ei fod yn gyfarwydd iawn â'r dref, gan iddo fod yn weinidog yno cyn ymddeol, ac mae ganddo lu o ffrindiau yno. Edrychwn ymlaen am gael ei groesawu yn ôl i bregethu yn Seion gan fod ganddo amryw o gyhoeddiadau hefo ni, yn 2014, ac y caiff iechyd i fwynhau ei gartref newydd. Nawdd y nef fo ar y proffwyd.

Bydd un o garedigion yr achos yn Seion yn dathlu pen-blwydd yn 100 oed ym mis Mai. Cyfeirio yr ydwyf at Mrs Jane Cole, Yr Wyddgrug. Roedd Mrs Cole yn un o ffyddloniaid oedfa'r bore tra yn byw ym Mhenbedw. Dymunwn ben-blwydd hapus a iechyd i'w fwynhau ond y dymuniadau gorau allwn ei roi iddi ydyw hyn 'Bendith Duw arni holl ddyddiau ei heinioes'.

## Dathlu dydd Gŵyl Ddewi ym Manceinion

A hithau yn ddydd Sadwrn, Mawrth 1af beth well na dathlu diwrnod y Cymry a'n nawdd sant Dewi gyda'n gilydd. Ac felly, bu yng nghapel Noddfa Oaker Avenue, Manceinion. Yn ôl traddodiad, hot-pot wedi'i wneud gan ferched y capel, teisen afal â hufen, caws a bisgedi oedd ar y 'menu' a'r cyfan yn flasus iawn. Roedd y byrddau yn werth eu gweld a'r cennin Pedr melyn yn codi calon pawb – y cyfan cystal â gwesty pedwar seren!

Ar ôl y gwledda, daeth yn dro'r gŵr gwadd i'n hannerch. Balch iawn oeddem i groesawu Mr. Dylan Roberts a'i wraig Eleri atom. Mae Dylan bellach yn byw yng Nghaernarfon ond fe'i cofiwn yma ym Manceinion yn fachgen ysgol ac yn fab i'n cyn-weinidog, y Parch Huw Gwynfa Roberts a'i wraig Mrs Mair Roberts – cyfnod hapus iawn yn ein hanes yn y ddinas. Yn ei anerchiad, dywedodd Dylan fod ei gysylltiadau â Manceinion yn mynd yn ôl gryn dipyn o amser. Daeth ei nain yma i nyrsio am gyfnod. Dilynwyd hynny gan ei fam yn dod yn athrawes yma. Hithau yn chwilio am gapel Cymraeg ac yn gofyn i'r *bus conductor* a wyddai ple yr oedd y capel! Ond, fe lwyddodd a gwneud ei ffordd i gapel Cymraeg Victoria Park. Ac yna yn 1971, dod yma fel gwraig gweinidog. Aeth Dylan i ysgol eilradd yn Cheadle Hulme – tipyn o newid ar ôl treulio peth amser yn Aberporth lle roedd ei dad yn weinidog. Erbyn hyn, mae merch Dylan ag Eleri, Meinir wedi bod yn efrydydd yn y Coleg Cerdd am rai blynyddoedd ac mae gyrfa ddisglair o'i blaen. Felly, ni all Dylan anghofio Manceinion yn rhwydd iawn! Mwynhawyd ei atgofion yn fawr iawn.

Yn ôl ein harfer, galwyd enwau'r siroedd a phawb yn eu tro yn codi llaw ac yn falch o gofio 'lle bu dechrau'r daith". Diolch i Alun Roberts am gyflawni'r dasg unwaith eto.

Wedi clirio'r byrddau, cawsant adloniant – eitemau cerddorol, darlleniadau am Gymry enwog, cyd-ganu yr hen ffefrynnau, hanes am Wili John, y morwr llon a'r cyfan yn ychwanegu at naws hyfryd y noson. Mae'n diolch i Eflyn Evans am baratoi'r rhaglen unwaith eto a hynny yn llwyddiannus iawn.

Cafwyd noson arbennig o hapus a chyfeillgar a hynny yn cael ei atseinio yn ein anthem genedlaethol, 'Hen Wlad fy Nhadau'. Pleser oedd cael bod yn bresennol ac yn rhan o'r dathlu sy'n unigryw i ni fel Cymry.

*Gohebydd Arbennig*

Rhifyn Mai 9/7/14 14:18 Page 4

# EGLWYS BETHEL, HEATHFIELD ROAD, LERPWL

Ar fore Sul, 2 Mawrth cawsom Oedfa Gŵyl Ddewi hyfryd ym Methel dan ofal Dr. D. Ben Rees. 'Roedd cynulleidfa gref wedi dod ynghyd ac ar ddiwedd y gweinyddiad o'r Cymun Sanctaidd, nid oedd un gwydr bach o win ar ôl. Peth anghyffredin iawn i ddigwydd, ond hyn fuasem yn hoffi ei weld bob mis. Yn ystod yr oedfa clywsom am farwolaeth un o'n haelodau, sef Mrs Glenys Ann Daniels, Charmount Way, Gateacre, ar ddydd Iau, Chwefror 27. Merch ydoedd i Mr. Emrys a Mrs Hannah Williams, gynt o Centreville Road. Bu'n Brifathrawes Ysgol Gynradd Wellbourne Road, Norris Green am flynyddoedd a meddyliai pawb yn uchel ohoni. Cynhaliwyd yr angladd ym Methel am ddeg o'r gloch bore Gwener, Mawrth 7 dan ofal Dr. D. Ben Rees. 'Roedd y Capel a'r Ganolfan yn orlawn. Dilynwyd gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Springwood. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'i phriod, Mr. Phil Daniels, sydd yn Brifathro Ysgol Gynradd Spingwood, ac âi mab Peter a'r holl deulu.

Daeth Adroddiad yr Eglwys am 2013 i law. Mae rhywbeth fel hyn yn cymeryd oriau maith i'w roddi at ei gilydd ac mae'n diolch yn fawr i Dr. John G. Williams am Adroddiad mor drylwyr a deniadol.

Llwyddodd Dr. Rees a Phwyllgor Urdd y Graddedigion gael tri Athro i ddod i'r Ganolfan i ddarlithio Yn Saesneg; hyn yn ein galluogi i wahodd atom gyfeillion o Saesnon o'r gymuned.

Y cyntaf o'r darlithwyr oedd yr Athro Ken Roberts o Brifysgol Lerpwl. Ganwyd ef yn Stockport ac mae'n byw yn awr yn Ormskirk. Teitl ei ddarlith ar Mawrth 10 oedd '*Sociology and Frank Sinatra*'. Ym 1991 ymunodd Yr Athro Ken Roberts â'r '*Frank Sinatra Music Society and Fan Club*'. Cyhoeddwyd Cylchgrawn ganddynt o'r enw '*Perfectly Frank*'. Daw terfyn ar y cylchgrawn yn 2015 yn y chwedegfed flwyddyn o'i fodolaeth ac ar ganmlwyddiant genedigaeth Sinatra. Cawsom glywed rhan byr o'i albwm hir olaf, sef '*Why can't we keep the music playing*?' 'Roedd yn 68 oed yr adeg yma. Dechrueodd ei yrfa yn nechrau oes cerddoriaeth boblogaidd. Dechreuodd hyn yn y theatrau a'r *Music Halls* a daeth dyfodiad y radio ar ddiwedd y bedwaredd ganrif a'r bymtheg â cherddoriaeth i bobl yn eu cartrefi. Daeth y radio yn rhan o ddodrefn pob cartref. Daeth cantorion yn boblogaidd fel arfer wedi dechrau canu gyda band adnabyddus, a dyna sut y dechreuodd Frank Sinatra.

Ganwyd ef ym 1915. 'Roedd ei fryd ar fod yn ganwr. Dechreuodd ar y radio ym 1935 wedi bod yn canu mewn tai bwyta. I ddechrau, canai ar y radio yn rhad ac am ddim er mwyn i bobl ddod i'w adnabod. 'Roedd aml i orsaf ddarlledu lleol yn America. Gwahoddwyd ef i ganu gyda band Harry Jones yn 1939 ac yna gyda band Tommy Dorcy, un o'r mwyaf yn y wlad. Ym 1940 cafodd yr hawl i recordio unawdau ac ym 1942 dechreuodd weithio ar ei ben ei hun wedi cael ei ryddhau o weithio gyda'r band. Canai ar y radio, gwnai recordiau a dechreuodd chwarae rhannau mewn ffilmiau. Adnabyddiai aelodau o'r Mafia gan ei fod yn byw mewn rhan a alwyd yn 'Little Italy'. 'Roedd ei dad yn berchen tŷ tafarn yn adeg y gwaharddiad (*prohibition*). Ym 1950 rhaid oedd i Sinatra roi seibiant i'w lais am beth amser. Er y dechrau, cafodd gefnogaeth ardderchog gan ei rieni. 'Roedd wedi ei wisgo'n smart, 'roedd pob offer angenrheidiol ganddo a chafodd wersi cerddorol. Hefyd, os oeddych yn boblogaidd yn yr America, 'roeddych yn boblogaidd drwy'r byd. Priododd Sinatra



***Frank Sinatra***

â Nancy a ganwyd iddynt dri o blant. Daeth cwymp yn ei boblogrwydd oherwydd ei berthynas ag Ava Gardner. Collodd ei waith ar y radio a chyda'r recordio. 'Roedd hefyd wahanol math ar gerddoriaeth yn dechrau dod yn boblogaidd. Ond fe ddaeth yn well byd iddo. Ym 1953 cafodd gytundeb recordio gan Capitol ac ym 1955 daeth i'r brig drwy gynhyrchu ei albwm hir gorau. Enillodd Oscar yr actor ategol gorau am ei ran yn y ffilm '*From Here to Eternity*'. Daeth yn berchennog Casino yn Las Vegas a gweithiodd gyda rhai fel Sammy Davis Jnr a Dean Martin, y 'Rat Pack'. Ymddeolodd ym 1971 ond dychwelodd i roddi cyngherddau ym 1973. Gallai lenwi'r Albert Hall a mannau tebyg mewn gwledydd eraill. Daeth a mwy o recordiau allan a dod yn "Number One" unwaith yn rhagor gyda "New York, New York".

Gwahoddodd lawer o gantorion enwog i ganu deuawdau gydag ef. Yr unig un i wrthod y cais oedd Pavarotti. Llewygodd Frank Sinatra ar y llwyfan ym 1995. 'Roedd yn ŵr hynod gyda llais cyfareddol. Fe'i hir gofir. Diolchwyd i'r Athro Ken Roberts, gŵr â phersonoliaeth hyfryd, gan Dr. D. Ben Rees a chan Dr. Arthur Thomas.

Ar brynhawn Sul, Mawrth 16 cynhaliwyd Oedfa Undebol i Fethania, Bethel a Seion yn Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw. 'Roedd yn dda cael bod gyda'n gilydd. Oedfa ydoedd i goffau tri chanmlwyddiant geni Howell Harris o Drefeca. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr. John Lyons, Bethania. Yr organydd oedd Mr. Terry O'Neill, Seion. Cynhyrchwyd pamffledi i bawb gan Dr. D. Ben Rees a chymerwyd rhan gan y Parchg. Robert Parry, B.D., B.Mus o Gapel y Groes, Wrecsam, a chan swyddogion tair eglwys y Glannau. Cawsom bregeth rymus iawn gan Dr. D. Ben Rees ar fywyd a gwaith Howell Harris. Ar ddiwedd yr oedfa paratowyd te blasus iawn i ni i gyd gan chwiorydd Seion, ac mae'n diolch y fawr iddynt am y croeso.

Ar nos Lun, Mawrth 17 cawsom Gyfarfod Agored gyda chyflwyniad gan Dr. D. Ben Rees ar Gyfraniad Ann Griffiths yn ôl yr Athro A. M. Alchin yn ei gyfrol '*Praise Above All*' (1991). Yn dilyn cafwyd trafodaeth ar emynau Ann Griffiths.

Ar fore Sul, Mawrth 23 pregethwyd gydag arddeliad gan y Parchg. D. Ganville Rees. Roeddym yn falch o'i groesawu ac rydym fel Eglwys yn dymuno pob hapusrwydd iddo yn ei gartref newydd yn Southport.

Bu Mr. Ken Pritchard yn yr ysbyty, ac wedi dychwelyd gartref am ysbaid, mae erbyn hyn yn ôl yn yr Ysbyty Frenhinol yn cael profion. Meddyliwn amdano ac hefyd am ei gyfnither, Christine, sydd wedi colli ei phriod yn ddiweddar. Gweddïwn dros y ddau mewn amser anodd.

# CYMDEITHAS CYMRY BIRKENHEAD

Cawsom noson hyfryd iawn ar Chwefror 28fed yn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Grove House Wallasey. Daeth bron i hanner cant ohonom at ein gilydd i fwynhau cwmni, bwyd da ac adloniant rhagorol. Agorwyd y noson gan ein llywydd Mr Bob Jones gan groesawu pawb gyda sgwrs fer am ein nawddsant ac arwyddocad ei fywyd i ni fel Cymry. Wedi'r fendith gan Parch Glenys Wilkinson, bu sgwrsio brwd hefo'n gilydd wrth fwynhau cinio rhagorol. Cyflwynodd Mr Trefor Roberts ein gwesteion i ni, Parti Amlwch, sefei dair wyres, Niamh, Sorcha ac Eabha a'u ffrind Sara. Gan y bedwarawd talentog, cawsom wledd o gerddoriaeth amrywiol a swynol dros ben. Yn ogystal a'u lleisiau hyfryd, roedd pob un ohonom yn fedrus ar sawl offeryn, yn cynnwys, telyn, ffidil, gitâr a clarinet. Heb ysbaid, clywsom dros bymtheg eitem yn cynnwys cerddoniaeth o Gymru, lwreddon, De Affric, Lloegr a'r Alban, y cyfan gyda graen a hyder cyfeillgar a phroffesiynol. Hawdd gweld eu bod wedi cael profiad eang a llwyddiant mewn llawer Eisteddfod.

Diolchodd Mrs Eirwen Sargent, is-lywydd, i'r merched am noson gofiadwy a phleserus dros ben, gan ddymuno llwyddiant pellach iddynt oll, yn arbennig i'r ddwy hynaf wrthynt anelu am Brifysgol.

'Roedd holl drefniadau'r noson yn nwylo medrus Mrs Iola Edwards. Diolchwyd iddi hithau a phawb arall a wnaeth gyfraniad i'r noson ac i staff y gwesty am fwyd da a gwasanaeth cwrteis a chyfeillgar.

Yn ôl ein harfer, dilynwyd y gwledda gyda gwasanaeth ar y nos Sul canlynol yng nghapel Seion, dan arweiniad ein llywydd Mr Bob Jones. Y Parch John Barnett, West Kirby, oedd y pregethwr gyda myfyrdod ar adnod 8 yn llyfr Micah, pennod 6. Ymadrodd sy'n atseinio yng ngeiriau Dewi ei hun. Er na wyddom fawr am fywyd Dewi, 'roedd ei ddewisiad fel nawddsant Cymru, yn un ysbrydoledig am lawer rheswm. Fe'i ganwyd yng Nghymru a threulio'i fywyd yn gweithio yno (bron yn unigryw ymysg seintiau gwledydd eraill), gadawodd ei ôl ar enwau yn ein gwlad, 'roedd ei fywyd yn esiampl o ostyngeiddrwydd, ffydlondeb a duwioldeb. Fel Micah, deallodd Dewi mai nid gorchestau dramatig y mynn Duw, ond gwneud y pethau bychain, "caru ffyddlondeb a rhodio'n ostyngedig gyda'th Dduw". Weithiau mae gwnaed y pethau bychain yn fwy anodd, ac yn ddisylw yng ngolwg dynion heddiw. Rydym yn byw mewn oes y "grand gestures" a rheini sy'n cael sylw. Clywsom engreifftiau a lawer chwildroad a ddechreuodd gyda phethau bychain yn nwylo'r bobl gyffredin.

Fel y daeth pum torth a dau bysgodion yn bryd o fwyd i bum mil yn nwylo Crist, felly y trawsnewidiwyd bywyd amryw drwy ymdrechion bychain a distaw. Soniodd Terry Waite am y cysur a gafodd wrth dderbyn un cerdyn bost; tyfodd Jubilee 2000, nes i arweinwyr y byd ddileu dyledion y trydydd byd. Yn ei lythyrau mae Paul yn diolch yn aml am garedigrwydd unigolion tuag ate tra 'roedd yn garcharor.

Yn ein ardal, gallwn ni gyfrannau at heddwch a llonyddwch drwy wrando, gwenu, siarad, bod yn amyneddgar a chymwynasgar, a thynnu sylw ein arweinwyr at anghyfiawder a thrais. Ydyw, mae geiriau Dewi yn dal i wneud synnwyr yn ein dyddiau ni.

Gwnaed casgliad at gapel Seion, a Mr Terry O'Neill oedd wrth yr organ.

Aethom am dro i "Wlad hudolus Eifionydd" ar Mawrth 17fed, yng nghwmni Sioned a David Davies, y Wyddgrug. Merch ein cyfaill Humphrey Wyn Jones yw Sioned, sydd wedi ymgymeryd a'r gwaith o gwblhau cyfres o ddarlithoedd ei, thad a'u cyflwyno i'w chyd Gymry. Bu Humphrey Wyn yn westai yn ein Cymdeithas droeon a mawr oedd ein hedmygedd o'i ddawn siarad huawdl a chartrefol a'i dalent fel tynnwr lluniau.  Mae Sioned yn gwisgo ei fantell yn effeithiol a hynaws. Mae ardal Eifionydd yn ymestyn o bentref Pantglas i dref Porthmadog yn orllewinol ac i mewn i gefn gwlad cymoedd Pennant ac Ystradllyn hyd Beddgelert. Mae'r ardal yn drysorfa o hanes â chysylltiadau llenyddol ein cenedl. Gwelsom gartrefi Eifion Wyn, Dafydd y Garreg Wen, Lloyd George, Robert ap Gwilym Ddu, Wil Sam ac "Ifans y Tryc", Bryn Terfel ac amryw o feirdd ac emynwyr ein cenedl. Clywsom hanes hen gestyll sydd bellach ond yn dwmpathau gwyrdd a'u hanes yn anwybyddus i'r rhan fwyaf sy'n teithio heibio. Hyfryd oedd medru rhoi enwau i fryniau cyfarwydd, lle mae amryw ohonon wedi troedio ar wyliau ac yn ein plentynod. Gallwm ymweld ag Eifionydd gyda llygaid newydd a gwybodaeth ehangach am yr etifeddiaeth sydd o'n cwmpas. Pleser ychwanegol oedd gwrando ar David yn darllen esiamplau o waith beirdd ac emynwyr yr ardal, cewri fel Eifion Wyn, Pedr fardd, a Parry-Williams.

Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Eirwen Sargent gan ddatgan ein mwynhad am noson hyfryd ac addysgiadol.

## Uno Eglwysi Noddfa Oaker Avenue a Warrington Prynhawn Sul, Mawrth 9fed 2014

Cafwyd gwasanaeth hyfryd ym mhresenoldeb Llywydd Henaduriaeth y Gogledd Ddwyrain, y Parch Robert Parry, Wrecsam. Darllenwyd rhan o'r ysgrythur gan Mrs Lois Murphy gyda gweddi o ddiolch am y dystiolaeth a fu gan y Barch Eleri Edwards a lediwyd dau emyn gan Mrs Brenda Pritchard a Mr Alun Roberts. Yr organydd oedd Mr. Gwilym Roberts. Ar ôl pregeth rymus a gwasanaeth cymun urddasol, y teimlad oedd inni gael prynhawn hyfryd. Rydym yn falch o gael croesawu Emyr a Brenda o Warrington i'n plith a bendith Duw fo ar yr uniad.

**<u>Pris</u> <u>Hysbysebu</u>**

**Hanner tudalen – £30**
**Chwarter tudalen – £15**
**Llai na chwarter o £5 i £10**



# LLUNIO EMYNAU

## *gan y diweddar Parchedig Stanley C. Lewis, Aberaeron*

"Dadi"

"Ie, Glesni".

'A wnei di ysgrifennu emyn ar gyfer fy mhriodas i?"

"Debyg iawn, fy nghariad."

O'r sgwrs yna y daeth yr emyn cyntaf a gyfansoddais. Gan fy mod wrth fy modd yn llunio telynegion, a bod emynau y diweddar Barchedig Brifardd J. T. Job – sy'n cynnwys y pennill godidog...

*O ddydd i ddydd ei hedd a ddaw*
*Fel gwlith ar ddistaw ddôl,*
*A da y gwyr ei galon ef*
*Fod gorau'r nef ar ôl.*

...yn ffefryn gennyf, penderfynais y cyfansoddwn emyn telynegol ei naws ar y patrwm yma. Chwynnais fy ansoddeiriau a dewisais fy nghymariaethau'n ofalus, ac o'r diwedd gorffenwyd yr emyn. Cefais innau'r boddhad o'i glywed yn cael ei ganu ym mhriodas Hywel a Glesni, ym Mhentowr, Abergwaun.

Fisoedd lawer ar ôl hynny gwelais fod cyfansoddi Emyn Priodas ar raglen Eisteddfod Pantyfedwen, Pontrhydfendigaid, a bod £50 o wobr amdano. I dorri stori hir yn fyr dyfarnodd y Prifardd Moses Glyn Jones fy emyn i'n orau – 'mewn cystadleuaeth dda' – allan o 33 o gystadleuwyr! Anfonais ef wedyn i'r *Goleuad*, ac wrth ei gynnwys yng Nghornel y Beirdd dywedodd y diweddar Barchedig Gwilym Hughes fod 'Glesni'n ffodus fod ganddi dad i gyfansoddi emyn priodas iddi â'r odl gyrch mor hyfryd drwyddo'.

Ar ôl hynny yr wyf wedi cyfansoddi emynau priodas i'r plant eraill, ac erbyn hyn emynau ar gyfer bedyddiau'r wyrion hefyd. Ond, ni chyfyngais fy emynau i rai teuluol yn unig.

Fe'm codwyd ar aelwyd a'm dysgodd i 'garu Cymru, cyd-ddyn a Christ'. Gorfoleddaf, o ganlyniad, yn y deffroad cenedlaethol yrnhlith ein pobl ifainc. Ar yr un pryd y mae cyflwr crefyddol fy nghenedl yn peri poen imi, ac y mae hynny'n amlwg yn yr holl emynau cyfoes a gyfansoddais, yn enwedig y rhai ar gyfer pobl ifainc. Ymddangosodd y rhelyw ohonynt o dro i dro yn y *Goleuad* ac ni ddewisais yr un ohonynt felly ar gyfer ei gynnwys yn y fan hon. Yn hytrach, dewisais emyn a gyfansoddais ar gais pwyllgorlleol Sasiwn Genhadol y Gogledd a gynhaliwyd ym Machynlleth, ddechrau'r wythdegau.

Gan nad yw wedi ymddangos yn y *Goleuad*, a chan ei fod yn disgrifio cyflwr echrydus Cymru a'r Eglwys heddiw, ac yn eiriolaeth ddwys am weld deffroad ysbrydol arall, dyma fy newis. Yr oeddwn wedi gobeithio y byddai emyn Glesni, neu'r emyn hwn, wedi'i gynnwys yn *Caneuon Ffydd*. Ond nid oes yr un dim o'm gwaith ynddo.

**Tôn: Aurelia**

*Yn oes yr ia ysbrydol*
*A Chymru dan y lluwch,*
*A dolef corwynt pechod*
*Yn codi'n uwch ac uwch*
*O! dyro dy faddeuant*
*I'th eglwys, nefol Dad,*
*Am fynd ohoni'n glaear*
*Ac egwan yn ein gwlad.*

*Nid yw ei hechel heddiw*
*At ddelfryd Mab y Dyn,*
*Troes i gyfeiriad pegwn*
*Ei chysur hi ei hun;*
*Yn ei hargyfwng, Arglwydd,*
*A'th fraich dosturiol gref*
*Cywira di ei gogwydd*
*I wneud ewyllys nef.*

*O! na chaem eto'i gweled*
*Yn herio'r oes a'r gwir;*
*Yn gwrthod cyfaddawdu*
*Â'r gau sydd yn y tir;*
*Ei chariad pur yn dadmer*
*Yr ia sy'n nghalon dyn,*
*A'r hirlwm yn troi'n wanwyn*
*Dan dy fendith di dy hun.*

# CORNEL Y TRYSORYDD

## MAI 2014

| | |
|---|---|
| Mrs Edna Jones, Wrecsam | £10.50 |
| Rhodd Cymdeithas Lenyddol Bethel, Lerpwl | £30.00 |
| Mr & Mrs Hugh Roberts, Bebington | £20.00 |
| Er côf am Walter Rees Jones, Penbedw | £25.00 |
| Rhodd Urdd Graddedigion Cymraeg Lerpwl | £30.00 |
| Dr a Mrs Arthur Thomas, Mossley Hill | £20.00 |
| Mr & Mrs Roderick Owen, Allerton | £25.00 |
| **Cyfanswm** | **£160.50** |

*Roderick Owen (Trysorydd)*

RYSAIT Y MIS

# SPWNG SIOCLED MEICRODON

✾

2 ŵy ffres (pwyswch)
Pwysau'r ŵy o fargarin meddal
Pwysau'r ŵy o siwgr mân euraidd
Pwysau'r ŵy o flawd codi
Hanner llond llwy de o bowdwr codi
1 llond llwy fwrdd o bowdwr siocled wedi ei gymysgu'n llyfn gydag ychydig o ddŵr poeth
Dysgl addas i feicrodon, tua 15cm x 15cm neu debyg

**DULL:**

1. Leinwch waelod y ddysgl feicrodon â phapur gwrthsaim.

2. Cymysgwch y cynhwysion uchod mewn powlen nes bod y gymysgedd yn hollol lyfn a gweddol laith. Tywalltwch y cyfan i'r ddysgl a'i ledaenu i'r corneli. Pobwch yn y meicrodon am 50 eiliad yr owns ar bŵer 800w.

   SYLWER: Bydd angen ychydig mwy o amser coginio ar feicrodon llai o bŵer, a llai o amser coginio ar feicrodon mwy na 800 w; edrychwch yn y llawlyfr am rysait debyg.

3. Gadewch i orffwys yn y meicrodon am ychydig, yna ei oeri a'i throi allan o'r ddysgl.

4. Torrwch yn ei hanner yn llorweddol gan lenwi ag eisin menyn o'ch dewis a gwasgarwch haenen dros y top.

5. Addurnwch gyda briwsion siocled, cnau mân, ayyb

Rhifyn Mai 9/7/14 14:18 Page 7


# Newydd Da – cyrhaeddwyd y nod o £3,700 i osod plac ar lan afon Iorddonen




*Diwrnod y dadorchuddio*




*Merched iaith Kachin yn dathlu*



*Y cerflunydd, Hagop L. Antreassian a'i farf – bydd yn gofalu am y plac Cymraeg*



*Dau o Nigeria yn llawenhau*




*Y wraig haelionus o Sri Lanka wrth y plac yn falch iddi gofio iaith yr aelwyd yn Yardenit, Galilea bellach*



*Teulu mawr wedi dod i Galilea i ddadorchuddio y plac sydd yn adrodd hanes Ioan Fedyddiwr yn bedyddio Iesu Grist o Efengyl Marc, pennod 1 adnodau 9-11.*

COFLEIDIO CYMRU

# Cofgolofn Hedd Wyn




Ynghanol pentref Trawsfynydd gwelir cofgolofn i un o feirdd y fro, Ellis Humphrey Evans (1887-1917), a adnabyddir yng Nghymru fel Hedd Wyn. Y mae hanes ei fywyd wedi tyfu yn epig a bellach wedi ei bortreadu mewn ffilm gan gwmni teledu annibynnol. Ysgrifenwyd y sgript gan fardd cyfoes, Alan Llwyd, a thyfodd y stori o dan ei ddwylo yn gyfrol swmpus a gyhoeddwyd ym 1991.

Craidd y saga yw fod y bugail bron uniaith Gymraeg hwn wedi gorfod mynd i ryfel yn erbyn ei ewyllys ef a'i deulu. Ymunodd ym 1917 â 15fed Bataliwn y Ffiwsilwyr Cymreig a hwyliodd i Ffrainc y flwyddyn honno. Daeth ei fywyd byr i ben ym Mrwydr Pilkem Ridge ar 31 Gorffennaf 1917.

Yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru a gynhelid ym Mharc Penbedw ar lannau Mersi ym Medi yr un flwyddyn, fe ddyfarnwyd y Gadair i'w awdl ef. Pan alwyd ei enw nid oedd neb i ateb. 'Roedd Hedd Wyn wedi ei ladd. Gosodwyd amwisg ddu am y tro cyntaf a'r tro olaf ar Gadair yr Eisteddfod yn yr ugeinfed ganrif a daeth Hedd Wyn yn eilun cenedl.

Dadorchuddiwyd cerflun pres yn portreadu Hedd Wyn fel bugail yn Nhrawsfynydd ym 1923.

***D. Ben Rees***




*Mossley Hill*
*Lerpwl*
*25-3-2014*

**Y nodedig Richard Owen**

*Annwyl Olygydd*

Yr oeddwn yn darllen papur bro *Y Ffynnon* (Mawrth 2014) a deuthum ar draws eitem ddiddorol am y Richard Owen a gaiff ei gofio yng Ngŵyl Adeiladwyr Cymry Lerpwl ym nechrau mis Mehefin. Gwn y bydd y darn difyr hwn yn sbarduno nifer o'ch darllenwyr i ddod i wrando yr arbenigwr Dr. Carr yn sôn am ŵr a gynlluniodd 250 o gapeli.



*Capel Fitzclarence Street, Lerpwl - contract cyntaf Richard Owen 1864*

---

***Cynllunydd Capeli***

***Tybed a wyddoch chi mai un o'r Ffôr oedd Richard Owen a ddaeth yn arbenigwr ar gynllunio capeli?***
***Ganwyd ef yn 1831 a bu farw yn 1891. Yn ôl y Gwyddoniadur bu'n brentis saer gyda'i dad cyn ymuno â chwmni adeiladu yn Lerpwl. Ar ôl astudio dylunio mewn dosbarthiadau nos agorodd swyddfa yn 1862, ac o fewn dwy flynedd derbyniodd ei gontract cyntaf i gynllunio capel.***
***Dywedir iddo gynllunio dros 250 ohonynt i gyd yng Ngogledd Cymru a Glannau Mersi, yn ogystal ag ambell un yn y canolbarth a sir Gaerfyrddin. Bu hefyd yn gyfrifol am nifer o adeiladau seciwlar gan gynnwys Llyfrgell Rydd Caernarfon yn 1888.***

*Yn gywir iawn,*
*Brian Thomas*

---

*Prifysgol Caerdydd,*
*19-3-2014,*

*Annwyl Ben Rees,*

Llawer o ddiolch am eich neges yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol iawn. Pasiaf y neges ymlaen at aelodau eraill o'r Pwyllgor fel bod nhw'n gallu gwybod beth fydd yn digwydd yn Lerpwl.

Cytunaf 100% â chi: mae Lerpwl yn lle hanfodol yn hanes y Wladfa. A gadewch i mi ychwanegu nodyn personol: cafodd fy hen daid, Walter Caradog Jones, ei enw ym Mhenbedw. Roedd ei dad, John Kadwaladr Jones yn wreiddiol o Lanuwchllyn, ac mi roedd yn deiliwr a phregethwr. Priododd ferch o Efenechtyd, pentref ger Dinbych. Faes o law symudodd y teulu i Resolfen, ddim yn bell o Gastell Nedd ble priododd Walter Caradog ferch o Gastell Nedd, ac mi symudon nhw i'r Wladfa yn 1890.

Er i mi symud i Gymru 12 mlynedd yn ôl, nid wyf eto wedi ymweld ag ardal Lerpwl, a gobeithio y byddaf yno yn 2015.

*Cofion gorau o Gaerdydd,*
*Walter Ariel Brooks, Cydlynydd Pwyllgor Dathlu 150 y Wladfa.*

# Dyddiau Cynnar Penmachno

## GAN BRIAN THOMAS (MOSSLEY HILL)

**Pennod 1**

**Y Pentref a'r Cwm Hudol**

Faint ohonoch ddarllenwyr *Yr Angor* sydd wedi bod ym Mhenmachno? Wel! gwell i chi wneud trefniadau i fynd yno yn reit fuan, canys dyna'r ffordd i'r nefoedd! Mae dwy ffordd i fynd yno, un o'r A5 ar y ffordd i Fetws y Coed yn ymyl Rhaeadrau Conwy, lle mae canŵyr gorau y wlad yn ymarfer canŵio dŵr gwyn. Y ffordd arall ydyw dros y Migneint ar y ffordd o Flaenau Ffestiniog i Ysbyty Ifan, a throi o'r chwith wrth Ffynnon Eidda. Wedyn rhaid ichwi fynd i lawr yr allt berycla yng Ngogledd Cymru, sef Allt Hafod Dredwydd i lawr i Gwm Penmachno. Os y gwyrwch i'r chwith yng ngwaelod yr allt fe ewch i gyfeiriad chwareli'r Cwm. Wedi cyrraedd yno, rhaid ichwi droi yn ôl, allwch chi ddim mynd ddim pellach. Bu i T. Gwynn Jones, y bardd enwog, fod yno unwaith, a dyma beth oedd ganddo ef i ddweud am ei ymweliad:

*"A minnau yno am unwaith,*
*Un ias hir, rhwng dwy nos faith."*

Ond cofiwch, am Cwm Penmachno oedd yn sôn. Mae tair milltir o fanno i bentref Penmachno, ac fel "Ty'n y Coed" yn yr hen bennill gynt, dyma'r lle difyrraf y bu mi ynddo 'rioed.

Pentref a chwm hudol i dyfu i fyny ynddo oedd. Pe buaswn yn cael byw fy mywyd eto, newidiwn i ddim diwrnod arno. Gweithwyr cyffredin, a gwaith i'w gael yn y chwarel, ar y ffermydd, neu gyda'r coed yn Fforest Gwydr, oedd y rhan fwyaf o ddynion y fro, a'r rhan fwyaf ohonynt yn rhadlon a hapus a chytûn gyda'u hunain a'u gilydd, a'r merched yn gweithio'n galed a diwyd i fagu teuluoedd mewn amser anodd ar y naw.

Yn y gaeaf, yn yr hen amser, roedd hi'n bur anodd dod i'r pentref o gwbl am gyfnodau hir, pan oedd eira ar y ddaear a phopeth wedi rhewi. Byddai trafnidiaeth ddim yn gallu ddod dros bont *Conwy Falls* i'r dyffryn. Mae'r ffordd o'r A5 i lawr at y bont yn serth iawn, ac yng ngwaelod yr allt mae troad S, a byddai llithro drwy wal y bont yn golygu disgyn gan troedfedd i wely'r afon. Ni fyddai gyrrwyr bysiau Crosville na gyrrwyr loriau yn awyddus iawn i beryglu'i bywyd. Gwell oedd ganddynt ddisgwyl hyd nes bod y rhew a'r eira wedi meirioli. Ac roeddem yn cael eira bob blwyddyn, am rhyw gyfnod, yn fy mlynyddoedd cynnr.

Ar ôl yr Afon Machno yr enwyd y pentref, afon braf yn torri'r pentref yn ddwy ran, a phont osgeiddig yn mynd dros yr afon. Byddai'r afon yn gorlifo yn amal, a byddai caeau'r ffermydd ar lawr y dyffryn yn aml iawn o dan ddŵr. Nid peth newydd ydyw glaw trwm yn gorlifo dyffrynnoedd, ac aeth llifogydd mawr yn y 1780au a'r hen bont efo'r lli. Bu rhaid cael pont newydd. Cafodd y bont newydd ei hadeiladu yn 1785 gan gwmni o Gaernarfon. Mae'r bont erbyn hyn yng nghanol y pentref, a dwy ran i'r pentref wedi tyfu'n naturiol o'i chwmpas. Ac felly y gelwir dwy ochr i'r bont hyd heddiw. Ochr yma, ac Ochr draw. Ochr yma yn dibynnu ar ba ochr oeddech yn byw.



***Pont dros afon Machno***

Ddaeth dim trydan i bentref Penmachno tan y pumdegau y ganrif ddiwethaf, oddeutu 1953. Roedd pob tŷ yn dibynnu ar lampau parffin, efo *wick* neu mantle yn eu goleuo. A byddai mamau y pentref yn gorfod cwcio ar y lle tân, ar y fflamau, neu mewn popty ar ochr y lle tân. Byddai'r dŵr yn cael ei ferwi ar y tân, mewn teciall, neu dŵr golchi o'r boiler yr ochr arall i'r tân. Gwaith caled oedd bod yn fam yr adeg honno.

Yn y gaeaf, byddai'r nos yn hir, a byddai y pentref mor dywyll a bol buwch ddu, ni fyddech yn gwybod pwy oedd yn eich pasio, os nad oeddech yn adnabod sŵn eu traed. Ym mynwent yr eglwys, yn ochr y ffordd fawr mae cof-golofn i'r brodyr a laddwyd yn y ddau Ryfel Byd, ac mae enw brawd fy nhad, William Crogwyn Thomas, Hafodwyryd, wedi ei cherfio arni. Cofiaf yn dda yr 11eg o Dachwedd bob blwyddyn pan fyddem yn cofio'r marwolaethau, canys tad Gareth Huws, Penbedw, fyddai'n chwarae y farwnad, y "last post" bob blwyddyn, ac mae'r iâs yn dal i fynd drwy'm corff wrth feddwl amdano.

Yn y cwm roedd tair chwarel, ac yn y Cwm roedd fy Yncl Rhys yn byw. Efe fyddai'n dreifio rhyw anghenfil o beiriant a fyddai yn clwydo'r llechi yn ddyddiol i Betws. "Traction Rhys" y gelwid y lori fawr yma, a weithiai trwy greu stêm, byddai trochion coch o danwydd yn disgyn i rhyw fowlen fawr odditani. Rwy'n cofio fy mod wedi cael reid arni i Betws ar y diwrnod y daeth yr Ail Ryfel Byd i ben a phawb yn dawnsio ac yn crïo ar y stesion. Yr wyf yn awr am adrodd dipyn o'm hanes fel plentyn yn tyfu i fyny yn y dyffryn hudol.

Cefais fy ngeni ym Mhenmachno ar y 21, Rhagfyr 1936, 'vintage' o flwyddyn, medda nhw! Y presant goreu/waethaf a gafodd fy Mam erioed, medda hi. (Mae'n dibynny pa fŵd oedd arni ar y pryd.)

Felly, prin dair oed oeddwn pan dorrodd yr ail Ryfel Byd allan. 'Does dim llawer o gof gennyf am y dyddiau hynny, ond 'rwy'n cofio cael hufen iâ o siop y Post. Hufen crwn ar ben pric oedd, wedi ei greu yn bwrpasol bron ichwi golli y rhan fwyaf ohono cyn y gallwch ei orffen. Cofiaf hefyd mai o gwpwrdd Lyons Maid y tynnwyd ef. Petha rhyfedd yda' ni'n gofio ynte? Y cof nesaf sydd gennyf, oedd cael fy nghodi o'm gwely a chael mynd i dop y ffordd i weld Lerpwl yn cael ei fomio. 'Roedd hi'n dywyll, ac 'roedd gweld yr awyr yn fflam o goch a melyn ar y gorwel yn lun sydd wedi aros efo mi am byth. Yn ogystal â hynny, 'roedd gweld y llinellau o '*searchlights*' yn chwilio ar hyd yr awyr am yr awyrenau yn brofiad syfrdanol ychwanegol.

Nid oes gennyf lawer o luniau personol o'r cyfnod hwn. Cofiwch os oedd gennych gamra adeg y rhyfel ym Mhenmachno, mai Spei oeddech! 'Roedd un Sais yn byw ar gyrion y pentref, gŵr o'r enw Mr. West. 'Roedd ganddo fo gamra, ac 'roeddwn ni'r plant yn meddwl o ddifri mai jerman spei oedd o. Y cof nesaf sydd gennyf oedd y ffordd y dechreuais fynd i'r ysgol. 'Roedd gen i ffrind o'r enw Alec, oedd yn byw yn ymyl, a byddem yn chwarae a'n gilydd. Rhyw ddydd dyma ni o'n dau, am rhyw reswm, yn penderfynu mynd i'r ysgol. Ac felly y bu hi, cawsom groeso i'r 'Infants' gan Miss. Ifans, oedd gyda llaw yn athrawes ar fy nhad pan oedd yn blentyn, a chawsom chwarae yn y tywod, a mynd am reid ar y ceffyl pren, ac wedyn cawsom ein hel adref. Felly y buo hi. Y ddau ohonom yn mynd i'r ysgol fel yr oedd arnom eisiau; chwarae efo'r tywod neu'r ceffyl ac wedyn mynd adref. 'Dwi' 'mond yn cofio cario 'mlaen fel hyn nes fy mod yn mynd yn llawn amser.

Llun arall ar fy nghof. Perthynas inni, Yncl Ifan ac Anti Idith, oedd yn byw yn Nhŷ Mawr yr Wybrnant, lle cafodd y Dr. William Morgan ei eni, ac rwy'n cofio, mynd yn ôl adref dros y mynydd, a hithau wedi tywyllu yn reit ddu, a minnau wedi mynd a dipyn o ofn. Cofio fy Nhad yn gafael yn fy llaw. Cofio'r ofn yn cilio oddi arnaf, a chofio teimlo yn hollol saff. Dim ofn efo'n nhad. Flynyddoedd wedyn bum yno yn aros ar fy ngwyliau. A chysgu yn yr un ystafell, hwyrach, a'r enwog Esgob.

Buom yn hynod ffodus a chael addysg dda yn un o ysgolion cefn gwlad Cymru. Tair athrawes heb eu hail, ac un Athro bendigedig, yn hwylio'n dyfodol, a pharatoi ein siwmeau i'r amser i ddyfod. Bendith amynt, a diolch amdanynt.

Ydach 'chi'n cofio'r plismon yn dod i'r ysgol? 'Roedd yr ysgol yn llawn o ffenestri, ac 'roeddem yn gallu ei weld yn cyrraedd. Wedyn ei weld yn tynnu ei helmet ac yn mynd i ystafell y Prifathro. Wel dyna ichwi beth oedd ofn. Ofn yn perfeiddio trwy'm corff i gyd. 'Roedd rhywbeth oeddem wedi ei wneud bob tro y byddai'n cyrraedd, ac ofn fod rhywun wedi deud wrtho. Ac oh! y teimlad braf o ryddhad, pan ddeuai rhywun i mewn i'r dosbarth a dweud, "Alec, mae'r prifathro eisia'ch gweld am funud. Gallwn fynd mlaen efo'n gwaith yn ysgafn fy meddwl.

Ymweliad pwysig arall oedd cael y deintydd i'r ysgol? Ryw ddydd Gwener oedd hi fel arfer a ninnau yn cael ein galw, fesul dosbarth i ystafell yr athrawon, a oedd wedi ei throi, am y pryd, yn ystafell archwilio dannedd. "Agor dy geg, a chadwa hi'n gorad." Ac wedyn, y deintydd yn chwilio am rhywbeth o'i le; a chofiaf hyd heddiw, y blas nicotin a fyddai'n ei adael ar ei ôl. Wedyn rhoi cerdyn imi i fynd adref i'm rhieni, i Mam oedd hynny'n feddwl. Pythefnos wedyn y deintydd yn dod yn ôl, ystafell yr athrawon y tro yma wedi cael ei throi yn ddeintyddfa, a chadair y Prifathro i eistedd arni, a bwciad enamel yn ei hochr. Redi Mêd Syrjeri. Y bwciad enamel, erbyn i ni gael ein gweld, yn hanner llawn o waed a dannedd drwg, a ogla gwaed, a ninnau'n dychryn gymaint nes oedd arnom ofn bod yno, ac ofn beth oedd i ddigwydd ar ôl hynny. Agor ein cegau a chau ein ein llygaid, a disgwyl nes bod y dant allan, ac wedyn pesychu'r gwaed i'r bwciad ar ôl y dant. Nid wyf yn cofio os oeddem ni'n cael pigiad, neu beidio, y cwbl ydwi'n gofio ydi bod yr ofn yn ddigon. Yr wyf yn cofio Miss. Gee yn dwad i wneud P.T. efo ni. Pladras o ddynes fawr yn galw yr ysgol i gyd i'r iard, i wneud llinellau taclus, ar hyd ac ar led yr iard, ac yn neidio i fyny ac i lawr, fel soldiwrs mewn byddin, nes oedd pawb wedi blino'n lân.

Addysg fendigedig oedd hi, i fyny i'r adeg oedd yn rhaid sefyll y '*scholarship*'. Cawsom ein bygwth am wythnosau fod y *Scholarship* yn dod, fel rhyw erchyll fawr ar ein ysgwyddau. Mwy o dreialon, ac eistedd heb siarad, dyna i'ch job! Yn Llanrwst yn yr Ysgol Ramadeg 'roedd y *Scholarship* yn cael ei chynnal, a chael pensal, penholder a nib sbâr, rubber a ruler a darn mawr o *flotting paper* i fynd gyda ni. Wedyn, Gwynfor Griffiths yn ein galw i rhyw fath o bwyllgor ar ôl yr ysgol. Rheolwr ein giang ni oedd Gwynfor a fo fyddai'n trefnu bob dim. Cael ein siarsio i beidio a thrio pasio y diwrnod wedyn, neu fe fyddai'n ddiwedd bron ar ein bywyd fel ac yr oedd. Achos os byddem yn pasio y buasem yn cael gymaint o '*Homework*' o'r ysgol newydd, fel na byddai byth obaith inni wedyn gael digon o amser i allu chwarae allan, fel oeddem wedi arfer, a buasai yn ddiwedd ar ein 'giang' ni. Coeliwch neu beidio, gallaf feddwl am dri bachgen o'm dosbarth a fethodd yr '*eleven-plus'*, a oedd yn sicr o fod yn ddigon galluog i basio, am eu bod wedi gwrando o ddifrif ar Gwynfor, yn cynnwys fo'i hun. 'Roedd Gwynfor yn gwybod bob dim, hyd yn oed pwy oedd yn mynd i gael babi, pwy oedd ei dad o, pwy oedd yn dyweddïo, neu pwy oedd yn gorfod priodi, a faint o fisoedd oedd ar ôl cyn i'r babi gael ei eni.

'Roedd tŷ Gwynfor fel syrjeri, 'roedd pawb yn mynd yno, a phawb yn cael croeso, ac yno byddai'r storis yn cyrraedd gyntaf. Efo ydyw un o brif Ymgymerwyr Angladdau Dyffryn Conwy y dyddiau hyn, ac mae wedi rhedeg busnes llwyddiannus ar hyd ei fywyd fel oedolyn. 'Roeddem ni i gyd fel plant Penmachno yn gwrando arno.

*(i'w barhau)*



***Tŷ Mawr Wybrnant***

# CYMDEITHAS CYMRY LERPWL

Ar nos Sadwrn Mawrth 1af cafwyd Cinio Gŵyl Ddewi ar y cyd â Chymdeithas Lenyddol Bethel. Cafwyd noson dda a diolch i'r rhai a fu'n gyfrifol am y trefniadau.

Y gŵr gwadd oedd y Parchedig Robert Parry, Capel y Groes, Wrecsam a chawsom sgwrs ddifyr ganddo ar ei hoff englynion.

Y nos Fawrth ganlynol cawsom groeso unwaith eto yng nghartref Dr. Pat Williams. Yr oedd wedi paratoi crempog i ni i gyd. Cawsom gyfle i gymdeithasu a mwynhau y danteithion. Fe wnaed elw i Gymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi. Diolch eto i Pat am ei charedigrwydd.

Yr wythnos wedyn daeth David Mawdsley atom i sôn am 'Llongau a'r gyfraith'. Cawsom hanes diddorol ei yrfa yn gyfreithiwr yn delio gyda damweiniau i longau, gwrthdrawiadau rhwng llongau ac achlysuron o ddifrod ar longau gan dân. Os oedd damwain yn digwydd rhaid oedd iddo gasglu tystiolaeth yn gyflym oddi wrth griw y llong a thystion leol, oherwydd nid yw llong yn aros yn yr un porthladd am yn hir ac mae'n annodd dod ag achos yn erbyn y cwmni mae'r llong yn perthyn iddo os yw'r llong wedi hwylio i rywle arall. Mae casglu tystioleth yn medru bod yn anodd iawn, yn arbennig os oes marwolaeth wedi digwydd.Rhan arall o'i waith oedd cynllunio cytundebau er mwyn i longau fedru defnyddio porthladdoedd. Bu'n sôn am lawer o ddamweiniau y bu'n delio a hwy dros y byd – o longau masnach i 'ferries'. Erbyn iddo ymddeol yr oedd wedi ymweld a llawer rhan o'r byd. Noson ddiddorol iawn a phawb wedi ei mwynhau.

Un o nosweithiau mwyaf poblogaidd y Gymdeithas yw y noson pryd mae y llywydd yn holi gwestai. Ar Fawrth 18fed bu Roderick Owen yn holi Mrs. Meinwen Rees a chawsom dipyn o hanes ei bywyd o Abercwmboi i Lerpwl. Yr oedd yn unig blentyn yn byw mewn pentref diwydiannol. Ei chôf cyntaf fel plentyn yw cuddio yn y twll dan grisiau pan oedd Abertawe yn cael ei fomio yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Er mai Cymraeg oedd iaith ei chartref roedd addysg ysgol gynradd Cap Coch Abercwmboi i gyd yn Saesneg. Symudodd i Ysgol Gynradd Gymraeg Cwmdâr pan yn 10 oed – yn un o'r rhai cyntaf i fynd yno.Roedd yn ferch y Mans ac yn cael bywyd yna yn galed ar adegau. Roedd yn ofynnol iddi fynd i'r Capel deirgwaith ar y Sul ac i'r Seiat a Chyfarfod Gweddi yn ystod yr wythnos. Treuliai ei gwyliau haf yn Sir Benfro gyda'i modryb, sef chwaer ei thad, a chael amser braf yno yn crwydro llefydd o



***Roderick Owen a Meinwen Rees***

ddiddordeb yn y sir gyda'i modryb. Dechreuodd eisteddfota yn ifanc yn Eisteddfod y capel ac fel arfer yn cystadlu ar amryw o gystadleuthau. Enillodd am y tro cyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mwllheli yn 1955. Roedd hi wedi ysgrifennu traethawd. Aeth i Ysgol Uwchradd Aberdâr. Cyfarfu â Ben Rees am y tro cyntaf ar faes Eisteddfod Aberdâr yn 1956. Roedd wedi meddwl mynd i Brifysgol Bangor ond fe'i perswadiwyd i fynd i Brifysgol Aberystwyth gan Ben. Wedi priodi, mynd yn wraig i Weinidog yn Abercynon a bu yno am chwe mlynedd. Clywsom ei hanes yno ac mor galed y bu'r amser wedi trychineb Aberfan. Wedyn daeth i Lerpwl yn 1968 ac er nad oedd arni awydd i ddod yma ymgartrefodd yn gyflym a phan ymddeolodd ein Gweinidog hi oedd eisiau aros yn Lerpwl. Gorffennodd y noson trwy ddangos ei dawn i adrodd gyda'r darn 'Seimon, mab Jona' gan I.D. Hooson. Noson lwyddiannus a phawb wedi mwynhau gwarando ar ei hanes. Diolch i Roderick am lunio'r sgwrs.

Y nos Fawrth ganlynol daeth y Barnwr Eifion Roberts atom i sôn am ei gyfaill yr Arglwydd Emlyn Hooson (1925-2012).Ganwyd Emlyn Hooson yn Ninbych a magwyd ef ar fferm Colomendy. Roedd ganddo feddwl treigar a phersonoliath hoffus. Aeth i Brifysgol Aberystwyth ym 1946 ac roedd yn fyfyriwr disglair yno. Ymunodd a'r Blaid Rhyddfrydol a'i arwr gwleidyddol oedd David Lloyd George. Bu'n llwyddiannus fel bargyfreithwr a gwleidydd. Apwyntiwyd yn un o Gwnsleriaid y



***Norma Owen a Eifion Roberts***

Frenhines yn 1960, un o'r ieuengaf ohonynt bryd hynny. Bu'n Aelod Seneddol dros Sir Drefaldwyn o 1962 i 1979. Dyrchafwyd ef i Dŷ'r Arglwyddi wedyn lle bu'n gyfrifol am nifer o fesuriadau pwysig. Daliodd swyddi pwysig ym myd masnach a'r celfyddydau e.e. Cadeirydd cwmni Laura Ashley a Llywydd Eisteddfod Ryngwladol Llangollen. Rydym yn ddiolchgar i'r barnwr Eifion Roberts am agor ein llygaid i ddoniau un o gewri y genedl.

## <u>GAIR</u> <u>I'R</u> <u>DARLLENWYR</u>

**Anfonwch eich tâl am Angor 2014-15 (Mehefin 2014-i Mai 2015) i'r Trysorydd mor fuan ag y medrwch.**

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2014. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.

- ***Pris Yr Angor*** yw £11.00 trwy'r post bob mis o Mehefin ymlaen. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.

- **RHIFYNNAU NESAF YR ANGOR**

  **i) Rhifyn Mehefin 2014 –** erbyn bore Llun, 31 Mai neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive. fsnet.co.uk

  **ii) Rhifyn Gorffennaf 2014** – erbyn bore Sadwrn, 31 Mai – y lluniau, adroddiadau etc.

  **iii) Rhifyn Awst/Medi 2014** erbyn bore Mawrth, 1 Gorffennaf i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.

- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

## LLWYDDIANT Y CYSTADLAETHAU

**<u>CROESAIR MAWRTH 2014</u>**

Dath 5 ymgais i law a phob un y gywir ac felly caiff y ddau ymgais gyntaf i gyrraedd swyddfa *Yr Angor* y wobr. Llongyfarchiadau cywiraf i **Mrs Betty Morris, Upton, Caer** ac i **Mrs Norma Lloyd Owen, Springwood, Lerpwl**

**<u>CWIS MAWRTH 2014</u>**

***Anhygoel o Ymateb***

Daeth pedwar ymgais i law ac fe lwyddodd dau ohonynt yn rhyfeddol. Llwyddodd **Mrs Devida Broadbent, Roby** a chael pob cwestiwn yn gywir yn Adran A, B, C ond methodd a chyflawni'r gamp honno yn Ardan D - Eglwysi Cadeiriol Anglicanaidd. Llwyddodd i gael 39 marc allan o 40. Felly caiff pedwar gwobr. Yn agos iddi daeth ein Trysorydd, **Roderick Owen, Springwood**. Cafodd ef A, B yn gywir ond collodd un marc yn C ac un marc yn D, felly 38 allan o 40. Daw tair gwobr iddo ef.

Hefyd **David Williams** (gynt o Karlsake Road) a gafodd 39 allan o 40. Daw pedwar gwobr iddo ef.

Bydd yn ofynnol trefnu Cystadleuaeth arall yng nghanol haf 2014. Llongyfarchiadau iddynt oll.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*



# PEARSON COLLINSON

## *TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**<u>Prif Swyddfa</u>**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**<u>Swyddfa arall</u>**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

National Association of Funeral Directors Est 1905

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol gyda Mr. Alan Hughes ffoniwch 0151 722 1514